Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheolau am raddfeydd arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref

## Beth rydych chi wedi ei ddweud wrthyn ni am ein cynlluniau



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb. Graddfeydd arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref**'.

**January 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 45**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ebost:** CareHomeTeam@gov.wales

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Rhif trwydded Photosymbolau 403527247

# Cynnwys

**Beth sydd yn y llyfryn yma** ..... **4**

**Beth mae pobl wedi ei ddweud** ..... **8**

Dangos graddfeydd arolygu ar-lein ..... 8

Dangos graddfeydd arolygu mewn adeiladau lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu ..... 13

Cartrefi gofal plant ..... 18

Gwasanaethau cymorth cartref ..... 23

Apelio yn erbyn graddfeydd arolygu ..... 28

Trosedd ..... 32

Yr iaith Gymraeg ..... 38

Sylwadau eraill ..... 41

**Beth fydd yn digwydd nesaf** ..... **44**

**Geiriau anodd** ..... **45**

# Beth sydd yn y llyfryn yma




Rydyn ni'n creu rheolau newydd. Mae'r rheolau am wasanaethau yn **cyhoeddi** graddfeydd arolygu.



Mae **cyhoeddi** yn meddwl rhannu gyda'r cyhoedd, fel bod pawb yn gallu gweld.



Mae graddfeydd arolygu yn dweud pa mor dda ydy gwasanaeth.

Mae’r rheolau ar gyfer gwasanaethau sy’n darparu:



- cartrefi gofal oedolion,



- cartrefi gofal plant,



- a **gwasanaethau cymorth cartref** – gwasanaethau gofal sy’n cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.



Roedden ni eisiau gwybod beth roedd pobl yn meddwl am y rheolau.




Fe wnaethon ni ofyn i bobl ddweud beth roedden nhw’n feddwl rhwng 29 Gorffennaf a 14 Hydref 2024.



Rydyn ni'n defnyddio gwahanol ffyrdd i gysylltu â phobl:

- Rydyn ni wedi anfon e-bost.

- Rydyn ni wedi gwneud pobl yn ymwybodol drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

- Rydyn ni wedi cael fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb.




Rydych chi'n gallu gweld yr ymgynghoriad hawdd ei ddeall yma: [www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-08/hawdd-ei-ddeall-graddau-arolygu-ar-gyfer-gwasanaethau-cartrefi-gofal-a-gwasanaethau-cymorth-cartref-fersiwn-2.pdf](www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-08/hawdd-ei-ddeall-graddau-arolygu-ar-gyfer-gwasanaethau-cartrefi-gofal-a-gwasanaethau-cymorth-cartref-fersiwn-2.pdf)




Fe wnaeth pobl ymateb ar-lein, trwy e-bost neu drwy'r post.




Rydyn ni nawr wedi casglu atebion pobl i'n cwestiynau. Mae'r ddogfen yma yn adroddiad o beth mae pobl wedi ei ddweud.



Fe wnaeth 127 o bobl ddweud beth roedden nhw'n feddwl.

**Pwy wnaeth ymateb:**



- Roedd 46 o bobl yn unigolion.
- Roedd 77 o ymatebion gan sefydliadau.



- Doedd rhai ddim yn dweud pwy oedden nhw.
- Fe wnaeth 1 sefydliad anfon 29 o ymatebion trwy ei wasanaethau.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud

## Dangos graddfeydd arolygu ar-lein




Rhaid i wasanaethau **gyhoeddi** eu graddfeydd arolygu diweddaraf ar bob gwefan maen nhw yn ei rhedeg. Gan gynnwys gwefannau sy'n cael eu rhedeg ar eu cyfer gan gwmni arall.



Os ydy darparwr gwasanaeth yn rhedeg mwy nag un gwasanaeth, rhaid iddyn nhw ddweud yn glir pa wasanaeth mae'r graddfeydd arolygu ar ei gyfer.




**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno bod yn rhaid i wasanaethau ddangos sgoriau arolygu ar eu gwefan?**

---



**Beth rydych chi wedi ei ddweud wrthyn ni:**

Roedd 92 o bobl yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r rheol yma.

**Dywedodd pobl, fe fydd yn:**




- Helpu teuluoedd a chleientiaid i gymharu gwasanaethau a dod o hyd i’r gofal gorau.



- Dangos fod y gwasanaeth yn agored ac yn onest.



- Helpu sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau i ddathlu eu llwyddiannau.



- Annog gwasanaethau i wella.




Roedd rhai pobl yn teimlo efallai na fyddai dweud dim ond **Da** neu **Wael** yn y sgôr yn ddigon. Dydy graddfeydd un gair ddim yn dangos ansawdd gofal yn llawn.



Roedd 20 o bobl yn anghytuno’n gryf neu’n anghytuno.

**Roedd pobl yn poeni bod:**




- Graddfeydd un gair yn gallu niweidio busnesau llai.



- Does gan blant ddim dewis lle maen nhw’n cael eu gosod. Felly, efallai na fydd graddfeydd arolygu yn ddefnyddiol iddyn nhw.



- Mae’n gallu effeithio ar sut mae gwasanaethau’n cael eu dewis.



- Efallai bod costau ychwanegol i greu gwefan ar gyfer sefydliad sydd heb wefan.



**Ymatebion eraill:**

- Doedd 14 o bobl ddim yn cytuno nac yn anghytuno.
- Wnaeth un person ddim ateb.

## Y camau nesaf




Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cefnogi'r syniad y dylai gwasanaethau ddangos eu graddfeydd arolygu ar eu gwefan.



Roedd rhai pobl yn poeni am sut y byddai graddfeydd arolygu yn gweithio.



Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** yn gweithio gyda sefydliadau gofal i wella sut mae graddfeydd arolygu yn cael eu disgrifio.





Fydd AGC ddim yn rhoi sgôr un gair fel **Da** neu **Wael** ar gyfer y gwasanaeth.




Yn lle hynny fe fydd **AGC** yn rhoi sgôr ar gyfer pob un o'r 4 maes yn eu hadroddiadau arolygu:

- Llesiant.
- Gofal a chefnogaeth.
- Arwain a rheoli.
- Amgylchedd.




Fe fydd graddfeydd arolygu yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu llawn. Rhaid i **AGC** **gyhoeddi'r** adroddiad arolygu yma yn ôl y gyfraith.




Mae gwasanaethau yn gallu ychwanegu dolen at eu hadroddiad arolygu ar eu gwefan.



**Fyddwn ni ddim yn newid y rheol yma yn seiliedig ar beth mae pobl wedi ei ddweud.**

# Dangos graddfeydd arolygu mewn adeiladau lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu



## Cartrefi gofal oedolion

Rhaid bod o leiaf 1 arwydd yn dangos eu graddfeydd arolygu. Fe ddylai fod 1 arwydd ym mhob adeilad lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.



## Cartrefi gofal bach i oedolion

Does dim angen i gartrefi gofal bach gyda 4 neu lai o bobl yn byw yno ddangos eu graddfeydd arolygu yn yr adeilad.




## Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno na ddylai cartrefi gofal i oedolion â 4 neu lai o bobl yn byw yno orfod dangos graddfeydd arolygu?

---

### Beth rydych chi wedi ei ddweud wrthyn ni



Roedd 29 o bobl naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno na ddylai cartrefi gofal llai orfod dangos graddfeydd arolygu.



Roedd rhai pobl yn dweud bod dangos arwydd graddfeydd arolygu yn gallu difetha'r teimlad o fod adref.



Roedd rhai hefyd yn dweud nad ydy graddfeydd un gair yn disgrifio ansawdd y gofal.



Roedd 79 o bobl naill ai’n anghytuno’n gryf neu’n anghytuno.

**Roedd rhai pobl yn dweud:**



- Fe ddylai pob cartref gofal ddilyn yr un rheolau.




- Mae rheolau hylendid bwyd a diogelwch tân yn berthnasol yn gyfartal, waeth beth ydy maint y gwasanaeth.




Dywedodd un person fod y system arolygu yn rhy araf i ddangos pryd mae gwasanaeth yn gwella neu’n gwaethygu.




**Ymatebion eraill**:

- Doedd 18 o bobl ddim yn cytuno nac yn anghytuno.
- Wnaeth un person ddim ateb.

## Y camau nesaf



Doedd dim llawer o bobl yn cefnogi’r rheol yma. Ond daeth llawer o’r ymatebion hynny gan un sefydliad.



Rydyn ni eisiau i gartrefi gofal llai deimlo fel cartrefi teuluol. Mae dangos graddfeydd arolygu yn gallu difetha’r teimlad o fod gartref.



Mae cartrefi gofal llai yn gallu dewis dangos eu graddfeydd arolygu os ydyn nhw yn dymuno gwneud hynny.

Fe fydd graddfeydd arolygu yn dal i fod ar gael:





- Ar wefan y cartref gofal os oes ganddyn nhw un.



- Ar wefan **AGC**.

- Os bydd rhywun yn gofyn amdanyn nhw.




- Yn adroddiad arolygu llawn **AGC**.




**Fyddwn ni ddim yn newid y rheol yn seiliedig ar beth mae pobl wedi ei ddweud. Fe fyddwn ni'n adolygu hyn wrth i'r system graddfeydd arolygu ddatblygu.**

## Cartrefi gofal plant



Does dim rhaid i gartrefi gofal plant ddangos arwydd graddfeydd arolygu yn yr adeilad.




**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno na ddylai cartrefi gofal plant orfod dangos graddfeydd arolygu?**

---

**Beth rydych chi wedi e i ddweud wrthyn ni**



Roedd 40 o bobl naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r rheol yma.



**Roedd pobl yn dweud:**

- Mae cartrefi gofal plant i fod i deimlo fel cartrefi teuluol.



- Mae dangos graddfeydd arolygu yn gallu gwneud i blant deimlo eu bod wedi'u labelu neu eu barnu.



- Mae dangos graddfeydd arolygu yn gallu datgelu lle mae'r cartref gofal. Efallai na fydd hyn yn ddiogel.



Roedd 58 o bobl yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r rheol yma.

**Roedd pobl yn poeni:**



- Fe fyddai'n creu gwahaniaethau rhwng gwasanaethau.



- Mae oedolion yn gallu bod mewn perygl yn union fel plant. Ond mae'n rhaid i gartrefi gofal oedolion mwy ddangos eu graddfeydd arolygu o hyd.



- Fe wnaeth llawer o bobl ddweud bod yn rhaid i'r holl wasanaethau fod yn agored, yn onest ac yn deg.



**Ymatebion eraill:**

- Doedd 25 o bobl ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd rhai yn dweud nad oedden nhw'n gwybod digon am wasanaethau plant i rannu barn.

- Dydy 4 o bobl ddim wedi ateb y cwestiwn.

# Y camau nesaf



Rydyn ni wedi ystyried pob ymateb yn erbyn y rheol yma. Daeth llawer o'r ymatebion yma gan un sefydliad.




Rydyn ni'n credu bod y rheol yma yn unol â'n nod. Mae'n gwneud i gartrefi gofal plant deimlo'n fwy fel cartref teuluol.



Mae cartrefi gofal llai i blant yn gallu dewis dangos eu graddfeydd arolygu os ydyn nhw yn credu ei fod yn iawn.

Fe fydd graddfeydd arolygu yn dal i fod ar gael




- Ar wefan y cartref gofal os oes ganddyn nhw un.



- Os bydd rhywun yn gofyn amdanyn nhw.




Dydy **AGC** ddim fel arfer yn **cyhoeddi** adroddiadau arolygu ar gyfer cartrefi gofal plant. Ond maen nhw'n gallu bod ar gael os bydd rhywun yn gofyn amdano.



**Fyddwn ni ddim yn newid y rheol yn seiliedig ar beth mae pobl wedi ei ddweud. Fe fyddwn ni'n adolygu hyn wrth i'r system graddfeydd arolygu ddatblygu.**

# Gwasanaethau cymorth cartref



Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n darparu gofal i bobl yn eu cartrefi eu hunain.



Rhaid i'r gwasanaethau yma ddangos o leiaf 1 arwydd graddfeydd arolygu ym mhob swyddfa maen nhw'n gweithio ohoni. Oni bai nad ydy'r swyddfa ar agor i'r cyhoedd.



Rydyn ni'n deall weithiau nad oes gan y gwasanaethau yma swyddfa. Os felly, dydy'r rheol yma ddim yn berthnasol.



## Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno bod yn rhaid i wasanaethau cymorth cartref ddangos eu graddfeydd arolygu yn eu swyddfeydd? Oni bai ei fod ar agor i'r cyhoedd?

### Beth rydych chi wedi ei ddweud wrthyn ni



Roedd 83 o bobl naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r rheol yma.




Roedd rhai yn dweud nad ydy llawer o swyddfeydd **cymorth cartref** ar agor i'r cyhoedd. Felly, fe wnaethon nhw awgrymu dangos y graddfeydd arolygu:




- Ar wefan y sefydliadau.
- Mewn gwybodaeth sydd yn cael ei rhoi i bobl.



- Ar wefan **AGC**.



Roedd llawer o bobl yn teimlo y byddai dangos graddfeydd arolygu yn helpu i wella gwasanaethau.



Roedd 16 o bobl yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r syniad.




Roedden nhw'n poeni bod dangos graddfeydd arolygu yn gallu:

- Effeithio ar sut mae pobl yn teimlo neu'n meddwl am y gwasanaeth.
- Cael effaith wael ar staff.

## Ymatebion eraill:



- Doedd 25 o bobl ddim yn cytuno nac yn anghytuno.




- Roedd rhai yn awgrymu y dylai graddfeydd arolygu fod â dolen i adroddiadau arolygu.

- Roedd rhai pobl eisiau gwybod pa wybodaeth fyddai’n cael ei harddangos a ble.



- Doedd tri o bobl ddim yn ateb.

## Y camau nesaf



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cefnogi'r syniad.


Fe fydd graddfeydd arolygu ar gael:




- Ar wefan y gwasanaeth os oes ganddyn nhw un.



- Os bydd rhywun yn gofyn amdanyn nhw.
- Ar wefan **AGC**.




- Mewn adroddiad arolygu llawn **AGC**.



**Fyddwn ni ddim yn newid y rheol yma yn seiliedig ar beth mae pobl wedi ei ddweud.**

## Apelio yn erbyn graddfeydd arolygu




Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i wasanaethau allu **apelio** yn erbyn eu graddfeydd arolygu.



Mae **apêl** yn meddwl anghytuno â graddfeydd arolygu a gofyn am gael edrych arno eto.




**Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r ffordd mae gwasanaethau yn gallu apelio yn erbyn eu graddfeydd arolygu?**

### Beth rydych chi wedi ei ddweud wrthyn ni



Roedd 71 o bobl naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â chael proses **apelio**.




Roedd rhai yn dweud ei fod yn bwysig, yn deg ac yn gywir.



Roedd ambell un yn teimlo y byddai'n helpu gwasanaethau i ddilyn y rheolau.



Roedd rhai yn cytuno gyda'r broses **apelio**. Ond yn cwestiynu'r amser y byddai'n ei gymryd i wneud **apêl**.



Roedd rhai yn awgrymu cynnwys yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Neu banel wedi'i wneud o sefydliadau gwirfoddol, grwpiau eirioli, a'r rhai sy'n gadael gofal yn adrodd i **AGC**.



Roedd rhai'n poeni os oedd **AGC** yn gallu ymdrin ag **apeliadau** ac ailarchwiliadau.



Roedd 2 berson yn teimlo ei bod yn bwysig cael dull safonol a theg o **apelio**.



Gofynnodd 3 o bobl a fyddai angen i wasanaethau ddangos eu graddfeydd arolygu os oedden nhw yn **apelio**.



Roedd 19 o bobl naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r rheol.



Roedd rhai pobl yn dweud y dylai'r broses **apelio** gynnwys mwy o fewnbwn gan wasanaethau.



Roedd un person yn dweud nad oedd y broses **apelio** wedi cael ei phrofi digon.



**Ymatebion eraill:**

- Doedd 32 o bobl ddim yn cytuno nac yn anghytuno.
- Dydy 5 o bobl ddim wedi ateb y cwestiwn yma.

## Y camau nesaf



Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r rheol **apelio**.



**Fyddwn ni ddim yn newid y rheol yn seiliedig ar beth mae pobl wedi ei ddweud.**

# Trosedd




**Trosedd** ydy pan fyddwch chi'n torri'r gyfraith neu'r rheolau.



Os na fydd gwasanaeth yn dilyn y rheolau yma, efallai y bydd angen iddyn nhw dalu dirwy.



Fe fydd y ddirwy yn £2,500.




Mae hyn yr un fath os nad ydy gwasanaeth yn dilyn rheolau eraill. Am bethau fel cael yr holl bolisïau cywir ar waith.




## Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn drosedd i wasanaethau beidio dangos eu graddfeydd arolygu fel sydd yn y rheolau?

### Beth rydych chi wedi ei ddweud wrthyn ni




Roedd 62 o bobl naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno y **dylid** cael dirwy am beidio dilyn y rheolau.



Roedd rhai yn dweud bod peidio dangos graddfeydd arolygu yn gallu gwneud iddo edrych fel petai'r darparwr yn cuddio rhywbeth.



Roedd 34 o bobl naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno.




Rhai awgrymiadau oedd rhoi ychydig o amser cyn rhoi dirwy.



Roedd un person yn dweud bod y system graddfeydd arolygu yn syniad gwael. Roedd yn gallu niweidio'r ymddiriedaeth rhwng gwasanaethau ac **AGC**.



**Ymatebion eraill:**

- Doedd 27 o bobl ddim yn cytuno nac yn anghytuno.
- Dydy 4 o bobl ddim wedi ateb y cwestiwn yma.

## Y camau nesaf



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cefnogi'r rheol yma. Fe fydd y rheol **trosedd** yn dechrau pan fydd y rheolau newydd yn dechrau.



**Fyddwn ni ddim yn newid y rheol yma yn seiliedig ar beth mae pobl wedi ei ddweud.**




## Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddirwy am dorri'r rheolau fod yn £2,500?

---

## Beth rydych chi wedi ei ddweud wrthyn ni



Roedd 39 o bobl naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno.




Roedden nhw'n dweud bod y ddirwy yn deg am dorri'r rheol yma.



Roedd rhai pobl yn dweud y dylai gwasanaethau gymryd cyfrifoldeb pan fydd rheolau'n cael eu torri.



Roedd 46 o bobl naill ai’n anghytuno’n gryf neu’n anghytuno.



Roedden nhw’n dweud y byddai’n tynnu arian oddi wrth fusnesau bregus ac yn effeithio ar fusnesau bach yn galetach.




Roedd llawer yn teimlo bod y pris yn rhy uchel.



**Ymatebion eraill:**

- Doedd 35 o bobl ddim yn cytuno nac yn anghytuno.
- Dydy 7 o bobl ddim wedi ateb y cwestiwn yma.

## Y camau nesaf



Roedd grŵp bach o bobl yn anghytuno â lefel y ddirwy.



Mae’r rheol yn caniatáu i wasanaethau dalu dirwy yn lle wynebu camau cyfreithiol.



Mae **troseddau** mwy difrifol yn gallu cael dirwy neu fynd i’r carchar.



**Fyddwn ni ddim yn newid y rheol yma yn seiliedig ar beth mae pobl wedi ei ddweud.**

# Yr iaith Gymraeg




**Cwestiwn 8: Sut ydych chi'n meddwl mae'r rheolau yn gallu effeithio ar y Gymraeg?**




**Cwestiwn 9: Ydych chi'n credu ein bod yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i'r rheolau fyddai'n helpu**

- **pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy,**
- **cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal,**
- **lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg.**




Roedd 86 o bobl wedi ateb cwestiwn 8.

Doedd 27 o bobl ddim wedi ateb, neu doedd yr atebion ddim yn glir.

Roedd 75 o bobl wedi ateb cwestiwn 9.

Doedd 34 o bobl ddim wedi ateb, neu doedd yr atebion ddim yn glir.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno i wneud yn siŵr bod graddfeydd arolygu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.


**Roedd pobl yn awgrymu:**




- Cael arolygwyr sy'n siarad Cymraeg.




- Darparu fersiynau hawdd eu deall.



- Defnyddio symbolau i helpu pobl sydd angen arwyddion neu symbolau.



- Yn gallu helpu i hyrwyddo'r Gymraeg.



Roedd ambell un yn anghytuno â chael graddfeydd arolygu yn yr iaith Gymraeg. Roedd pobl yn dweud ei fod yn wastraff amser ac arian. Fe fyddai'n ychwanegu costau ychwanegol at wasanaethau. Doedd dim llawer o bobl eisiau hynny.

## Y camau nesaf





Mae gan **AGC** arolygwyr sy'n siarad Cymraeg yn barod. Rhaid i bob gwasanaeth gynnig gwasanaethau yn Gymraeg pan fydd angen.




Mae **AGC** yn gweithio ar wella sut mae graddfeydd arolygu'n cael eu cyflwyno. Maen nhw yn bwriadu defnyddio symbolau a lliwiau a'r graddfeydd ysgrifenedig i helpu pobl.



**Fyddwn ni ddim yn newid y rheol yma yn seiliedig ar beth mae pobl wedi ei ddweud.**




Rydyn ni yn annog gwasanaethau i ateb anghenion y Gymraeg. Mae'n rhan o strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050.



Mae Cod Ymarfer AGC ar gyfer arolygu gwasanaethau yn esbonio sut mae **AGC** yn cynnal archwiliadau. Mae'n canolbwyntio ar egwyddorion a hawliau i lywio eu gwaith.

## Sylwadau eraill

### Cwestiwn 10: Oes unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am y rheolau ar gyfer dangos graddfeydd arolygu?




Roedd 58 o bobl wedi ateb y cwestiwn yma.



Mae rhai pobl wedi rhannu eu syniadau ar y canlynol:

- Sut mae graddfeydd arolygu yn cael eu rhoi.
- Sut maen nhw’n cael eu sgorio.
- Sut i gael garddfeydd arolygu ardderchog.



Roedd rhai pobl yn poeni bod dangos graddfeydd arolygu yn gallu achosi gofid i staff.



Roedd rhai pobl yn poeni a oes gan **AGC** ddigon o adnoddau. Roedden nhw’n teimlo bod angen yr hyfforddiant cywir ar arolygwyr.



Roedd pobl yn poeni am sut y gallai graddfeydd arolygu gwael effeithio ar bobl sy’n byw mewn cartrefi gofal a’u teuluoedd.



Roedd rhai pobl yn poeni bod graddfeydd arolygu yn gallu achosi problemau gyda:

- Arian.
- Yswiriant.
- Cael gwasanaethau gofal hirdymor, cryf.



Roedden nhw hefyd yn poeni y gallai cartrefi gofal godi eu ffioedd. Yn enwedig mewn ardaloedd lle mae llai o ddewisiadau.

## Y camau nesaf



Rydyn ni wedi edrych ar yr holl ymatebion. Dydy'r pryderon sydd wedi eu codi ddim yn ymwneud â'r rheolau drafft. Maen nhw yn ymwneud â heriau parhaus yn y sector gofal. A sut y bydd graddfeydd arolygu yn gweithio.



**Fyddwn ni ddim yn newid y rheol yma yn seiliedig ar beth mae pobl wedi ei ddweud.**

# Beth fydd yn digwydd nesaf



Fe fydd y rheolau newydd yn creu system graddfeydd arolygu ar gyfer:

- cartrefi gofal oedolion,
- cartrefi gofal plant,
- a **gwasanaethau cymorth cartref**.



Fe fydd y rheolau yma yn cael eu cyflwyno i'r Senedd ar 28 Ionawr 2025.




Os ydy'r Senedd yn cytuno, fe fyddan nhw yn dechrau ar 31 Mawrth 2025.




Rydych chi'n gallu dod o hyd i'r rheolau drafft ar wefan y Senedd senedd.cymru/busnes-y-senedd/deddfwriaeth/is-ddeddfwriaeth

# Geiriau anodd

### Apêl

Mae hyn yn meddwl anghytuno â graddfeydd arolygu a gofyn am gael edrych arno eto.

### Cyhoeddi

Mae cyhoeddi yn meddwl rhannu gyda'r cyhoedd, fel bod pawb yn gallu gweld.

### Gwasanaethau cymorth cartref

Gwasanaethau gofal sy'n cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.

### Trosedd

Torri'r rheolau. A beth sy'n digwydd pan fydd gwasanaethau'n torri'r rheolau.